# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Polisi Trafnidiaeth i Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau



Medi 2024

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Trosolwg

| | |
|---|---|
| POLISI | Polisi Trafnidiaeth i Oedolion sy'n Derbyn Gwasanaethau |
| CYFEIRNOD | AS01 |
| ADRAN | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| AWDUR | Jo Taylor, Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Anabledd ac Iechyd Meddwl |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF | Medi 2024 |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF | Medi 2026 |

Rheoli Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Gorffennaf 2010 | | |
| 2 | Mai 2014 | | Cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, dim ond mân newidiadau |
| 3 | Gorffennaf 2022 | E Murphy / Jo Taylor | Adolygiad Cylchol, dim ond mân newidiadau |
| 4 | Mawrth 2023 | N Harper / Jo Taylor | Adolygiad yn dilyn argymhellion yr Ombwdsmon, mân ychwanegiadau/newidiadau |
| 5 | Medi 2024 | N Harper / S Swarbrick | Adolygiad Cylchol. Mân newidiadau i derminoleg – dileu rôl swydd y Rheolwr Cludiant. |

Ymgynghori a Chymeradwyo

| Fersiwn | Pwy | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | Jo Taylor / SSMT | Gorffennaf 2022 |
| 4 | Jo Taylor / Ian Maclaren | Mawrth 2023 |
| 5 | Uwch Dîm Rheoli | Medi 2024 |

# Cynnwys

Trosolwg ........ 2
1.0 DIBEN ........ 4
2.0 Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL ........ 4
3.0 EGWYDDORION ARWEINIOL ........ 4
4.0 LWFANS SYMUDEDD / MOTABILITY ........ 4
5.0 CYMHWYSEDD ........ 5
6.0 CANLLAWIAU AR GYFER ASESU ........ 5
6.1 Ffurflen Asesu Cludiant ........ 5
7.0 RHEOLI RISG ........ 7
8.0 CANLYNIAD ........ 7
9.0 CLUDIANT A ARIENNIR GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL ........ 7
10.0 APÊL ........ 7
11.0 DOGFENNAU PERTHNASOL ERAILL ........ 8
12.0 ATODIADAU ........ 9
12.1 Atodiad 1 – Siart Lif yr Asesiad Polisi Cludiant ........ 9
12.2 Atodiad 2 – Canllawiau i staff ar gyfer asesu anghenion cludiant. ........ 10
12.2.1 Cyflwyniad ........ 10
12.2.2 Cwestiynau Cyffredin ........ 10
12.3 Atodiad 3 – Proses y Panel Cludiant ........ 13
12.4 Atodiad 4 – Y Ffurflen Asesu Cludiant ........ 16

## 1.0 DIBEN

Diben y polisi hwn yw sicrhau fod pobl a asesir i fod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal a sydd angen cymorth gyda chludiant i allu defnyddio'r gwasanaethau hynny, yn derbyn gwasanaeth sy'n bodloni yr anghenion a aseswyd.

Wrth roi'r polisi ar waith, fe ganolbwyntir ar sicrhau'r lefel uchaf bosibl o annibyniaeth a rhoi'r grym i unigolion i ddefnyddio'r cludiant sydd ar gael yn lleol, neu eu cludiant eu hunain. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol (byddwn ni) yn trefnu ac yn ariannu cludiant pan fo gan unigolyn angen wedi ei asesu am gludiant.

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o ddogfennau a dylid ei darllen ar y cyd â'r dogfennau sydd i'w cael yn yr atodiadau i'r polisi hwn.

## 2.0 Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi cyfrifoldeb ar unigolion ac Awdurdodau Lleol AR Y CYD i fodloni anghenion a chyflawni canlyniadau. Yn y cyd-destun hwn nid yw angen ond yn gymwys i'w ddiwallu drwy Gynllun Gofal a Chymorth a Reolir Awdurdod Lleol OS NA ELLIR EI DDIWALLU MEWN UNRHYW FFORDD ARALL. Mae hyn yn cynnwys gallu unigolion i ddefnyddio eu hadnoddau personol, gan gynnwys adnoddau ariannol, teulu sy'n fodlon helpu a rhwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau/gweithgareddau hygyrch sydd ar gael o fewn eu cymuned gyda chefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol i wneud hynny os oedd angen.

Mae gennym ni ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn amgylchiadau penodol. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948 ac Adran 2 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.

Mae Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan na ddylai Awdurdod Lleol godi tâl am gludiant i wasanaeth dydd pan gaiff 'y cludiant ei ddarparu er mwyn diwallu anghenion unigolyn'.

## 3.0 EGWYDDORION ARWEINIOL

Oni chawn wybod yn wahanol, byddwn yn cymryd yn ganiataol bod unigolion sydd angen gwasanaethau dydd ar ôl cael eu hasesu yn gallu trefnu eu cludiant eu hunain i'r gwasanaeth hwnnw.

## 4.0 LWFANS SYMUDEDD / MOTABILITY

Ni fydd unigolion sy'n derbyn lwfans symudedd neu sy'n defnyddio cerbyd o dan gynllun Motability yn derbyn cludiant â chymhorthdal, oni bai bod yna ffactorau sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud defnydd llawn o fuddion y lwfans/cerbyd e.e. natur yr anabledd, math o gadair olwyn neu ofynion cymorth y gofalwr.

Os yw unigolyn neu ofalwr yn penderfynu na fydd cerbyd o dan y cynllun Motability yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd, cyfrifoldeb yr unigolyn a/neu'r gofalwr yw gwneud trefniadau amgen priodol.

## 5.0 CYMHWYSEDD

Er mwyn i gludiant gael ei drefnu a'i ariannu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fe fydd pob unigolyn yn cael ei asesu. Bydd cost darparu cludiant yn cael ei gyfrifo fel rhan o gynllun gofal a chymorth integredig ac yn cael ei adolygu ynghyd â'r holl wasanaethau eraill.

Fel rheol gyffredinol mae'n rhaid cynnal yr holl asesiadau cludiant wyneb yn wyneb gyda'r unigolyn a'u teulu os yn briodol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y dylid cynnal asesiad cludiant fel ymarfer pen desg. Yn yr achosion hyn fe ddylai'r Asesydd egluro wrth y tîm neu reolwr y gwasanaeth pam na ellir cynnal asesiad wyneb yn wyneb.

**I fod yn gymwys ar gyfer cludiant bydd y ffurflen asesu cludiant a dogfennaeth arall wedi eu hystyried gan y Panel Cludiant, a fydd wedi dod i'r casgliad fod gan yr unigolyn 'angen' am gludiant a bod angen gwasanaeth cludiant i'w galluogi i gael at wasanaeth sydd ei angen i gyflawni'r canlyniad personol ac na ellir ei ddarparu mewn unrhyw ffordd arall.**

**A**

**Byddai peidio â darparu gwasanaeth o'r fath yn creu lefel annerbyniol o risg i'r unigolyn a / neu i'r gofalwr cydnabyddedig.**

## 6.0 CANLLAWIAU AR GYFER ASESU

Unwaith fod angen am wasanaeth wedi ei nodi drwy asesiad o anghenion, bydd yn rhaid i'r Asesydd ystyried sut y bydd yr unigolyn yn cael at y gwasanaethau hynny. Cyn i ddarpariaeth gludiant gael ei threfnu gan y cyngor dylai'r holl ddulliau sydd ar gael i fodloni anghenion drwy rwydweithiau cefnogi cymunedol ac anffurfiol gael eu harchwilio. Nid yw'r pellter sydd rhaid i'r unigolyn ei deithio yn cyfrif fel angen o ran cludiant.

### 6.1 Ffurflen Asesu Cludiant

Fel rhan o'r ffurflen asesu cludiant gofynnir y cwestiynau canlynol:

1. A oes yna unrhyw wasanaethau eraill sydd yn nes at gartref yr unigolyn a fyddai'n diwallu'r angen a nodwyd?

2. A all yr unigolyn gerdded at y gwasanaeth?
   - Dylai anghenion symudedd fod wedi eu hasesu fel rhan o'r asesiad o anghenion.
   - Gallu cerdded yn annibynnol neu gyda chymorth rhywun arall. e.e. defnyddio system cyfeillio neu system debyg fel rhan o raglen o gefnogaeth a gynlluniwyd a gaiff ei adolygu'n rheolaidd.

3. A yw'r unigolyn yn gallu defnyddio ei gludiant ei hun?
   - A oes ganddynt eu cerbyd eu hunain?

4. A yw'r unigolyn yn gallu talu costau cludiant o unrhyw lwfans symudedd a ddyfarnwyd iddo?
   - Pan fo lwfans symudedd wedi'i ddyfarnu dylid ei ddefnyddio ar gyfer eu hanghenion cludiant.
   - Rhoddir ystyriaeth i unrhyw ofynion pwysig ar y lwfans.
   - Os nad yw'r unigolyn yn derbyn lwfans symudedd ond y gallai fod yn gymwys ar gyfer y buddion hyn, disgwylir i gais gael ei wneud ar gyfer gwiriad budd-daliadau. Fe gynigir cymorth i'r ymgeisydd i gyflwyno cais.

5. Os nad yw'r unigolyn yn derbyn lwfans symudedd, ond y gallai fod yn gymwys i'w dderbyn, a yw'r unigolyn wedi cael cynnig cymorth i gyflwyno cais?

6. A yw'r unigolyn yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol?
   - Mae'r Lwfans Symudedd yn ffurfio rhan o'r Dyfarniad Taliad Annibyniaeth Personol.

7. Cytunwyd fod yr unigolyn angen cynorthwy-ydd teithio neu fod ganddo hynny yn barod.
8. A oes modd i'r unigolyn gael ei gludo gan ofalwr, aelod o'r teulu neu rywun arall?
   - Pan fo'n bosibl dylid ystyried a all rhywun gludo'r unigolyn ai peidio. Gall gofalwr fod yn rhywun sy'n byw gydag unigolyn fel eu prif ofalwr neu rywun nad yw'n byw gyda'r unigolyn.
   - Gall aelod o'r teulu neu rywun arall fod ar gael i gludo'r unigolyn.
   - Gall rhannu cludiant gyda ffrind sy'n hunan-ariannu neu rywun sy'n defnyddio'r un gwasanaeth fod yn opsiwn e.e. o fewn yr un ardal ddaearyddol neu wrth fynychu'r un lleoliad.
   - A oes angen cymorth eiriolwr ar yr unigolyn?

9. A yw'r unigolyn yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus?
   - Gall hyn fod yn deithio annibynnol neu gyda chymorth rhywun arall e.e. drwy gynllun cyfeillio / hyfforddiant teithio annibynnol.

10. Os nad yw'r unigolyn yn gallu defnyddio gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar hyn o bryd, a oes modd iddo wneud hynny gyda chymorth neu ar ôl cyfnod o sicrwydd, cefnogaeth, galluogi a hyfforddiant cludiant?

11. A yw'r unigolyn yn byw mewn llety lle mae modd i'r darparwr gwasanaeth drefnu'r cludiant? Er enghraifft:

    - Cartref preswyl neu nyrsio
    - Cynllun byw â chymorth
    - Lleoliadau tai â chymorth eraill
    - Tai Gofal Ychwanegol

O ran unigolion sy'n byw yn y lleoliadau hyn, disgwylir y bydd y darparwr gwasanaeth yn trefnu cludo'r unigolyn gyda'r unigolyn yn talu'r gost. Dim ond pan nad yw hyn yn bosibl y dylai mater mynediad at gludiant gael ei gyfeirio'n ôl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

12. A oes gan yr unigolyn Gynorthwy-ydd Personol a allai gael ei ariannu drwy ddyraniad Taliadau Uniongyrchol presennol.

13. A fydd unrhyw un o'r dulliau uchod yn datrys y broblem o ran sut y bydd yr unigolyn yn gallu cael mynediad at wasanaeth?

## 7.0 RHEOLI RISG

Mae cymryd risgiau yn rhan sylfaenol o hyrwyddo annibyniaeth. Waeth beth fo'r penderfyniad am lefel y cymorth sydd ei angen, mae'n rhaid i'r Asesydd gwblhau asesiad risg fel rhan o'r asesiad o'r angen.

Bydd yr Asesydd yn gyfrifol am gynnal asesiad risg unigol o anghenion personol, meddygol a chymorth yr unigolyn mewn perthynas â chludiant, gan amlygu risgiau posibl a'r rheolaethau sydd mewn grym i leihau effaith y risgiau hynny. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chwblhau fel rhan o'r ffurflen asesu cludiant a bydd yn ffurfio rhan o'r ddogfennaeth a fydd yn cael ei hystyried gan y Panel Cludiant.

Bydd yr Ymagwedd a Rennir tuag at Bolisi Cymryd Risgiau Cadarnhaol hefyd yn cael ei defnyddio.

## 8.0 CANLYNIAD

Pan fo'r mater yn ymwneud â sut y bydd unigolyn yn cael mynediad at wasanaeth yn gorfforol yn cael ei datrys drwy un o'r dulliau uchod, bydd hyn yn cael ei gofnodi yn asesiad o anghenion yr unigolyn a dogfennaeth y cynllun gofal/ cymorth.

## 9.0 CLUDIANT A ARIENNIR GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Bydd y penderfyniad i drefnu ac ariannu cludiant yn cael ei gefnogi yn dilyn asesiad llawn o anghenion, wedi i ffurflen asesu cludiant gael ei chwblhau ac yn dilyn asesiad risg llawn fel rhan o broses cynllunio gofal.

Dim ond y Gwasanaethau Cymdeithasol all gomisiynu cludiant a ariennir.

## 10.0 APÊL

Pan fo unigolyn yn anghytuno gyda'u hasesiad cludiant, fe allant gyflwyno apêl. Mae'n rhaid i hwn fod gyda'r gyfarwyddiaeth o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd manylion ynglŷn â sut i apelio yn cael eu darparu i'r unigolyn neu eu teulu gan yr Asesydd.

Er mwyn ystyried apêl, byddai'r panel apêl angen yr isod:

- Unrhyw wybodaeth ychwanegol na chafodd ei gyflwyno drwy'r Asesiad Cludiant
- Unrhyw amgylchiadau teuluol na adroddwyd yn ystod yr Asesiad Cludiant
- Unrhyw gostau sy'n cefnogi'r cais
- Unrhyw asesiadau cysylltiedig

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r panel apêl gan yr Asesydd / gweithiwr cymdeithasol.

Pan fo unigolyn yn ystyried y byddai ariannu ei drefniadau cludiant ei hun yn ei roi mewn perygl o galedi ariannol, fe all apelio am hepgor y taliadau. Bydd yr Asesydd yn darparu gwybodaeth ar y panel hepgor. Byddai hyn yn digwydd ar ôl i'r Asesiad Cludiant gael ei gwblhau ac wedi i'r panel Cludiant gyfarfod.

Bydd y panel yn rhoi gwybod i'r unigolyn beth yw ei gasgliadau cyn gynted â phosibl wedi'r gwrandawiadau.


Dim ond wedi i'r broses apêl yn ymwneud â chludiant gael ei dilyn y bydd y weithdrefn gwyno yn dod i rym.

## 11.0 DOGFENNAU PERTHNASOL ERAILL

- Yr Ymagwedd a Rennir tuag at Bolisi Cymryd Risgiau Cadarnhaol
- Polisi Panel Hepgor
- Polisi Cwynion

# 12.0 ATODIADAU

## 12.1 Atodiad 1 – Siart Lif yr Asesiad Polisi Cludiant



## 12.2 Atodiad 2 – Canllawiau i staff ar gyfer asesu anghenion cludiant.

### 12.2.1 Cyflwyniad

Ym mhob achos rhaid i'r Asesydd ddarganfod datrysiadau ar gyfer cludo unigolion i'w gwasanaethau gofal dydd ac oddi yno yn annibynnol i'r Cyngor.

Cafodd Polisi Cludiant Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyflwyno ym mis Hydref 2011. Ers ei gyflwyno, mae staff wedi codi nifer o gwestiynau mewn perthynas ag eglurder a'r dehongliad o'r polisi. Mae'r canllawiau hyn wedi eu dylunio i ateb rhai o'r ymholiadau hynny. Pan fo staff angen rhagor o gefnogaeth mewn perthynas â dehongli, neu pan fo ganddynt gwestiynau newydd i'w gofyn, cysylltwch â'r rheolwr cludiant, eich tîm neu'r rheolwr gwasanaeth i gael rhagor o fanylion.

Cynghorir Aseswyr i ddarllen y Polisi Cludiant ac ymgyfarwyddo'u hunain gyda'r manylion.

Os bydd yr Asesydd / ymarferydd yn gwneud cais am gludiant a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, dylid gwneud hyn ar y ffurflen asesu cludiant.

**Ym mhob achos rhaid i'r Aseswyr ystyried a oes gan yr unigolyn angen cymwys am gludiant.**

**Nid yw'r pellter mae'n rhaid i unigolyn ei deithio o'r cartref i'r gwasanaeth dydd yn cyfrif fel angen am gludiant.**

Bydd pob cais am gludiant a gaiff ei ariannu yn cael ei ystyried ar sail unigol.

Disgwylir i unigolion ddarganfod eu ffordd eu hunain at wasanaethau, boed hynny drwy gael eu cludo gan aelod o'r teulu neu drwy drefnu a thalu am eu cludiant eu hunain. Ni chaiff cludiant ei ddarparu'n awtomatig pan gaiff unigolyn ei asesu fel un sydd angen gwasanaeth dydd. Os bydd yr unigolyn neu eu teulu'n darparu datrysiad o ran cludiant i wasanaethau dydd, nid oes angen cynnal asesiad cludiant.

Dylai'r holl drefniadau cludiant gael eu cofnodi yng nghynllun gofal/cefnogaeth yr unigolyn fel bod darparwr y gwasanaethau dydd yn ymwybodol o'r dulliau cludiant.

Os ydych, fel rhan o'r asesiad o anghenion, y cynllun gofal/ cefnogaeth a'r asesiad risg, yn ystyried fod gan unigolyn angen cymwys am gludiant, yna darllenwch y ddogfen hon ond hefyd cyfeiriwch at y ddogfen Proses y Panel Cludiant.

### 12.2.2 Cwestiynau Cyffredin

**C1) Mae'r unigolyn wedi dewis talu'r ffi uchaf bosibl am y gwasanaeth ac wedi gwrthod asesiad ariannol llawn.**

A) Os yw'r unigolyn wedi dewis talu'r ffi uchaf bosibl ar gyfer gwasanaethau neu wedi gwrthod Asesiad Ariannol, ni fydd y cyngor fel arfer yn ariannu neu'n trefnu cludiant, gan fod yna dybiaeth fod ganddynt ddigon o adnoddau i ariannu'r cludiant eu hunain. Mae'n bosibl fod yna eithriad i hyn – gweler C5 isod.

**Awgrym** - Os yw'r Asesydd yn credu y gallai'r unigolyn fod yn wynebu anfantais gan nad yw wedi cael Asesiad Ariannol, fe ddylent wneud pob ymdrech i egluro'r manteision ac annog Asesiad Ariannol.

**C2) Beth sydd angen i mi ei wneud yn ymwneud â gwybodaeth yr Asesiad Ariannol a sut ydw i'n dod o hyd i wybodaeth ariannol.**

A) Os yw asesiad cludiant i'w gynnal, dylai Aseswyr sefydlu gyda'r Tîm Asesu Ariannol a oes gan yr unigolyn Asesiad Ariannol cyfredol mewn grym, beth yw'r ffioedd gwasanaeth cyfredol (os oes unrhyw rai) a beth yw'r sefyllfa ariannol ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Dylai'r wybodaeth hon fod ar y ffurflen asesu ar gyfer cludiant fel y gall y Panel Cludiant wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

**C3) Beth os oes gan unigolyn lwfans symudedd e.e. lwfansau symudedd cyfradd uchel neu isel?**

A) Os yw unigolyn yn derbyn lwfans symudedd cyfradd uwch neu is, fel rheol gyffredinol ni fydd y cyngor yn ariannu cludiant. Dylid archwilio gyda'r unigolyn a allant drefnu ac ariannu eu cludiant eu hunain i'w gwasanaeth dydd ac oddi yno. Cydnabyddir fod y lwfans symudedd weithiau'n cael ei ddefnyddio i ddibenion eraill yn ymwneud â chludiant. Os yw'r Asesydd yn ystyried fod y diben hwn o flaenoriaeth uwch neu gyfartal i'w hangen i fynychu gofal dydd fe all y cyngor ystyried darparu ychydig o'r cludiant i'r gwasanaethau dydd neu'r cludiant i gyd. Dylai'r Asesydd ystyried yr effaith ar y teulu cyfan gan ystyried anghenion yr unigolyn wedi eu cydbwyso â chost y cludiant i'r gwasanaeth dydd neu waith ar gyfer yr unigolyn a'r cyngor.

**C4) Beth os oes gan yr unigolyn gerbyd symudedd?**

A) Mewn egwyddor ni fydd y Cyngor yn ariannu cludiant dan yr amgylchiadau hyn, fodd bynnag mae'n bosibl fod rhesymau eithriadol pam y gallai unigolyn fod dal yn gymwys am gludiant wedi ei ariannu gan y Cyngor. Ym mhob achos bydd angen i'r Asesydd gyflwyno achos manwl i'r panel ynglŷn â pham y dylai'r cyngor ariannu'r cludiant.

**C5) Beth os oes angen Cynorthwy-ydd Teithio ar unigolyn?**

A) Mae'n rhaid nodi hyn yn yr asesiad o anghenion ac mewn asesiad risg, waeth beth fo canlyniad eu hasesiad ariannol. Gall hyn ddod o dan adran 2 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, lle mae gan y cyngor ddyletswydd i drefnu ac ariannu cludiant. Gall enghraifft o hyn fod lle mae gan rywun ddementia dwys neu anabledd dysgu a chorfforol dwys. Fodd bynnag dylid archwilio datrysiadau gyda'r teulu gan y gallai fod yna amgylchiadau lle bydd teulu yn cytuno i rannu cyfrifoldebau cludiant e.e. lle bydd Cyngor Sir y Fflint yn trefnu ac yn ariannu'r bore gyda'r teulu yn trefnu ac yn ariannu'r prynhawn. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Dylid ystyried yr effaith ar deuluoedd lle trafodir trefniadau ariannu rhannol, rhaid i'r rhesymau dros y cais am gludiant gael eu cofnodi ar y ffurflen asesu ar gyfer cludiant a'u cyflwyno i'r panel i'w hystyried a'r penderfyniad terfynol yn ogystal â'r holl fanylion eraill sydd eu hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

**C6) Beth os yw'r unigolyn yn mynd at wasanaeth a ariennir gan grant?**

A) Dylai unrhyw un sy'n mynychu'r gwasanaethau hyn gael eu hasesu ar gyfer cludiant yn unol â'r polisi cludiant.

**C7) Os yw unigolyn eisoes yn derbyn cludiant a ariennir i ganolfan ddydd neu gyfleoedd dydd, a oes angen i mi fynd yn ôl at y Panel Cludiant ar gyfer cynyddu cludiant?**

A) Oes. Mae'n rhaid i'r holl geisiadau'n ymwneud ag adnoddau ychwanegol ddod drwy'r Panel Cludiant gan y gallai hyn olygu costau ychwanegol a bydd unrhyw newidiadau i leoliadau unigol yn golygu newid i drefniadau cludiant. Bydd hyn yn golygu fod angen cais i'r Panel Cludiant, dylai hyn gael ei gwblhau gan yr unigolyn sy'n trefnu'r newid mewn lleoliad.

**C8) Pryd ddylai'r cais i'r panel gael ei gyflwyno i'r panel ar gyfer ei ystyried.**

A) Dylai ceisiadau i'r panel gael eu cyflwyno wedi i gytundeb gael ei geisio gan banel cymunedol ar gyfer y lleoliad, os yw'r gwasanaeth i ddechrau ar unwaith. Ar gyfer gwasanaethau sy'n cychwyn yn y dyfodol, ni ddylai ceisiadau i'r panel fod ddim cynt nac 8 wythnos o ddechrau'r gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi i amgylchiadau presennol gael eu hystyried gan y panel.

**Gwybodaeth ddefnyddiol arall**

Dim ond cludiant ar gyfer preswylwyr cymwys a ariennir gan Sir y Fflint y bydd y cyngor yn ei ddarparu. O ran unigolion a gaiff eu lleoli yn Sir y Fflint gan awdurdod arall, rhaid i'w cludiant gael ei ariannu/darparu gan yr unigolyn neu gan yr awdurdod sydd wedi eu lleoli; nid oes unrhyw eithriadau i'r rheol hon. Dylai fod yna drafodaeth gyda'r awdurdod sy'n lleoli ynglŷn â'r trefniadau cludiant pan wneir y trefniant cychwynnol.

Nid yw'r pellter mae'n rhaid i unigolyn ei deithio i wasanaeth dydd ac oddi yno yn nodi angen am gludiant.

Mae nifer o unigolion ar hyn o bryd yn dewis teithio cryn bellter o'u cartref i wasanaeth dydd pan fo gwasanaeth addas ar gael yn fwy lleol i fodloni eu hangen a aseswyd. Dylai'r gwasanaeth dydd agosaf gael ei ddefnyddio os yw'r unigolyn yn gymwys am gludiant y gwasanaethau cymdeithasol. Pan fo'r unigolyn yn mynnu ar eu dewis o wasanaeth dydd a bod hyn yn golygu taith hirach na'r dewisiadau eraill, dylid rhoi'r dewis i'r unigolyn o ariannu eu cludiant eu hunain neu fynychu'r ganolfan agosaf.

Rhaid i bob cludiant fod yn effeithlon a chost effeithiol. Os gofynnir i unrhyw unigolion sy'n mynychu gwasanaeth ar hyn o bryd i newid trefniadau, fe ymgymrir â hyn yn sensitif a bydd anghenion pob unigolyn yn cael eu hystyried.

Os yw trefniadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau dydd, dylai fod yna gydweithio agos rhwng yr Asesydd, y gwasanaeth dydd a'r rheolwr cludiant i benderfynu'r datrysiad mwyaf effeithlon a chost effeithiol ar gyfer cludiant. Mae'n bwysig nad yw dyddiau penodol yn cael eu haddo i unigolion cyn i'r agwedd gludiant gael ei hystyried.

Dylai anghenion cludiant gael eu hadolygu fel rhan o'r broses adolygu.

Os cyflwynir apêl yn erbyn y penderfyniad ar gludiant, mae'n rhaid i'r apêl gael ei chyflwyno o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol.

## 12.3 Atodiad 3 – Proses y Panel Cludiant

Gweler isod fanylion ynglŷn â sut y bydd y Panel Cludiant yn gweithredu.

Nid yw Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Sir y Fflint yn darparu cludiant am ddim mwyach i oedolion sy'n mynychu gwasanaethau dydd oni bai fod ganddynt angen o ran cludiant sydd wedi ei asesu.

Ym mhob achos, mae'n rhaid i Aseswyr geisio canfod datrysiadau annibynnol / unigol o ran cludiant ar gyfer unigolyn. Mae'n rhaid i Asesydd ystyried yr angen am gludiant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac ystyried yr achos unigol gan ddefnyddio'r Polisi Cludiant. I gael gwybodaeth fwy manwl am hyn cyfeiriwch at y canllawiau i staff ar "Asesu ar gyfer Cludiant". Fel dewis arall fe all aseswyr gael sgwrs wyneb yn wyneb gyda'r rheolwr cludiant.

Os oes gan unigolion ddulliau annibynnol o ran cludiant (nad ydynt wedi eu hariannu gan y Cyngor), nid oes yna unrhyw ofyniad i gwblhau ffurflen asesu cludiant na dod â'r achos gerbron y Panel Cludiant i'w gymeradwyo.

Fodd bynnag, os yw'r Asesydd yn nodi fod yna angen am gludiant wedi ei ariannu, mae'n rhaid dilyn y broses isod.

Nid yw'r pellter mae'n rhaid i unigolyn ei deithio i wasanaeth dydd ac oddi yno yn nodi angen am gludiant.

Hyd nes y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y panel cludiant, ni ddylid dod i unrhyw gytundeb i ariannu na threfnu cludiant yn y cyfamser.

**Y broses**

1. Bydd gweithiwr cymdeithasol/Asesydd yn cwblhau ffurflen asesiad cludiant wyneb yn wyneb yn fanwl gyda'r unigolyn a/neu eu teulu os yw'n briodol ac yn trosglwyddo i'r Tîm Cludiant.
    - Ni ddylid cynnal asesiadau pen desg heb i ddefnyddiwr y gwasanaeth a'r rheolwr tîm gytuno i hynny.

    Rhaid i Weithiwr Cymdeithasol fynd drwy fanylion yr asesiad cludiant i sicrhau fod yr holl wybodaeth wedi ei darparu. Bydd y ffactorau allweddol yn cynnwys:
    - Asesiad o anghenion neu gynllun gofal/cefnogaeth cyfredol sy'n nodi'r angen a aseswyd am gludiant.
    - Adnabod yr holl / unrhyw risgiau mewn perthynas â chludiant.
    - Asesiad ariannol cyfredol.
    - Bydd angen eglurhad llawn yn ogystal ag asesiad risg ar gyfer Cynorthwy-ydd Teithio.
    - Enw a chyfeiriad yr unigolyn.
    - Y Ganolfan Ddydd / sefydliad y bydd yn ei fynychu.
    - Nifer o ddyddiau y mae angen cludiant.
    - Y gost a amcangyfrifir i'r unigolyn am gludiant yn ddyddiol.

2. Panel Cludiant - Bydd Panel Cludiant yn cael ei alw cyn gynted â phosibl ond ni fydd yn ddim hwy na 5 diwrnod gwaith o dderbyn yr asesiad cludiant a'r ddogfennaeth i gyd-fynd â hynny gan y Tîm Cludiant. Gall panel gael ei alw'n gynt os y sefydlir fod yr achos yn un brys.

   Aelodau'r Panel:

   - Rheolwr Gwasanaeth
   - Rheolwr y Tîm Cyllid
   - Gweithiwr Cymdeithasol

   Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn darparu'r asesiad cludiant ac unrhyw fanylion perthnasol eraill i'r panel ac yn cyflwyno'r achos i'r panel.

   Gall yr Asesydd fynychu Panel Cludiant pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

   Caiff y polisi cludiant ei weithredu gan ddefnyddio'r ffactorau allweddol a restrir uchod.

   Caiff pob achos ei ystyried yn fanwl.

**Hyd nes y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y panel cludiant, ni ddylid dod i unrhyw gytundeb i ariannu na threfnu cludiant yn y cyfamser.**

3. Gwneud Penderfyniadau

Ym mhob achos bydd y panel yn archwilio ac yn ystyried:

- Y gofal, y gefnogaeth a'r effaith ariannol ar unigolion a'u gofalwyr fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Os yw'r panel yn aneglur yn ymwneud ag unrhyw bwynt fe fyddant yn cyfeirio yn ôl at y gweithiwr cymdeithasol neu eraill am wybodaeth fwy manwl.
- Dim ond pan fydd y panel yn deall yr holl wybodaeth yn glir a phan fydd yr holl ffactorau wedi eu hystyried y bydd penderfyniad yn cael ei wneud.

Bydd y panel yn ystyried y canlynol i gyd cyn gwneud ei benderfyniad.

- A yw'r unigolyn yn gallu cael at gludiant drwy gefnogaeth sy'n ddwys i ddechrau ac yna'n lleihau yn raddol neu unrhyw ymagweddau tebyg eraill?
- Os yw dewisiadau eraill yn briodol bydd y panel yn cyfeirio at y tîm neu'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer cefnogaeth, er enghraifft hyfforddwyr swyddi.
- Lwfans symudedd – Os yw'r unigolyn yn derbyn lwfans symudedd graddfa isel, mae'n bwysig fod y panel yn gwybod pa mor bell sydd rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth deithio; faint o ddyddiau yr wythnos a beth fydd y gost a amcangyfrifir o ran cludiant i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae hyn yn helpu i benderfynu faint o ddyddiau neu deithiau y gall y Cyngor eu hariannu a faint o ddyddiau y gallai fod disgwyl i'r unigolyn ariannu eu hunain. Mewn rhai achosion, fe all caledi ariannol gael ei ystyried.
- Symudedd graddfa uchel (gyda char) – Fel rheol gyffredinol pan fo gan yr unigolyn gar symudedd byddai disgwyl i'r unigolyn ddefnyddio eu car symudedd ar gyfer yr holl gludiant i'r gwasanaeth dydd (oni bai fod yna anghenion meddygol difrifol neu ymddygiadol sy'n golygu fod angen cynorthwy-ydd teithio / gweithiwr cefnogi bob amser). Gall caledi gael ei ystyried yn yr achos hwn.
- Wedi ei asesu fel Taliad Uchaf – Gan ddefnyddio asesiad ariannol presennol bydd manylion yn cael eu gwirio i nodi gallu'r unigolyn i hunan-ariannu cludiant. Fe all caledi ariannol weithredu fel sail a bydd yn cael ei ystyried yn yr achos hwn.

- Taliad uchaf (dewis i dalu) – Fe dybir fod gan yr unigolyn gronfeydd digonol i ariannu ei gludiant ei hun, oni bai fod yna ffactorau eraill sydd angen eu hystyried e.e. heriau ymddygiadol.
- Talu llai na £100 am ofal neu wasanaethau cefnogi – ar ôl ystyried holl fanylion yr achos fe all yr unigolyn, er nad ydynt o reidrwydd yn gymwys am gludiant wedi ei ariannu a’i drefnu, gael cludiant wedi ei ariannu a’i drefnu ar sail caledi ariannol.
- Angen cynorthwy-ydd teithio – Pan fo yna angen digonol y gellir ei gyfiawnhau sydd wedi ei ddangos yn amlwg yn yr asesiad o anghenion a chais y panel, fe all unigolyn fod yn gymwys yn awtomatig am gludiant wedi ei ariannu a’i drefnu. Yn yr holl achosion lle gofynnwyd am gynorthwy-ydd teithio fe ddylai fod yna asesiad risg a dylai rheolwr tîm gymeradwyo hynny. Fe allai’r panel ofyn am wybodaeth fwy manwl cyn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y panel yn ystyried achosion ar sail unigol. Fe allai fod angen cynorthwy-ydd teithio, er enghraifft lle mae yna achosion o ddementia dwys, ymddygiadau sy’n heriol, materion iechyd a diogelwch sylweddol ar gyfer yr unigolyn neu’r gyrrwr neu amgylchiadau eraill. Nid yw’r rhestr hon yn un gyflawn.
- Mewn nifer o achosion, lle amlygir yr angen am gynorthwy-ydd teithio ar gyfer cymorth gyda diogelu eiddo, mynd i a dod o’r cerbyd neu fynd gyda’r unigolyn ar y daith, ni fydd hyn fel arfer yn ddigonol i warantu’r angen am gynorthwy-ydd teithio. Bydd gyrrwr sy’n barod i helpu yn cynorthwyo gyda’r materion hyn. Pan fo pecyn gofal mewn grym dylid ystyried trefnu amser unrhyw gludiant i gyd-fynd ag argaeledd y darparwr gofal neu fod y pecyn gofal yn cael ei addasu i ddarparu’r cymorth hwn.
- Gofynion amrywiol – Os yw unigolyn ar hyn o bryd yn cael ei gludo gan aelod o’r teulu ond na all gael ei gludo o ganlyniad i sefyllfa argyfyngus dros dro, er enghraifft anghenion meddygol sydyn neu hirdymor fel bod yr aelod o’r teulu yn yr ysbyty, mae angen gwneud cais am gludiant. Fe roddir ystyriaeth i’r achos gan ddefnyddio’r pwyntiau uchod, ac fe all gael ei ystyried ar gyfer cyllid dros dro, dim ond pan fydd dulliau eraill wedi methu. Fe gytunir ar gyfnod adolygu gyda’r penderfyniad hwn.

Yn dilyn penderfyniad y panel, bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn rhoi gwybod i’r gweithiwr cymdeithasol beth yw’r penderfyniad drwy e-bost yn cadarnhau canlyniad cais y panel. Pan benderfynir nad yw unigolyn yn gymwys am gludiant, fe fydd y Rheolwr Gwasanaeth yn darparu adborth ysgrifenedig, ac os oes angen adborth llafar. Bydd gwybodaeth yn ymwneud â’r hawl i apelio ar gael. Bydd holl ganlyniadau / gwybodaeth y Panel Cludiant yn cael ei gofnodi ar PARIS.

Fe all yr holl benderfyniadau ar y Polisi Cludiant fynd ymlaen i apêl os yw’r unigolyn neu aelod o’r teulu yn ystyried fod angen hynny. Bydd aseswyr yn darparu gwybodaeth i’r unigolyn yn ymwneud â’r broses apêl a sut i fynd ymlaen â hyn. Gweler y broses apêl am ragor o fanylion.

## 12.4 Atodiad 4 – Y Ffurflen Asesu Cludiant

**Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Y FFURFLEN ASESU POLISI CLUDIANT**

**Medi 2024**

Dylid defnyddio’r ffurflen hon i gofnodi’r asesiad o anghenion cludiant er mwyn helpu i benderfynu a yw unigolyn yn gymwys ar gyfer cludiant wedi ei ariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol. Dylid defnyddio’r ffurflen ochr yn ochr â’r Polisi Cludiant, asesiad o anghenion, cynllun gofal ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall. Dylid cynnal yr asesiad wyneb yn wyneb gyda’r unigolyn a/neu aelod o'r teulu fel y bo’n briodol. Mae’n rhaid i’r unigolyn a’r rheolwr tîm gytuno i asesiad pen desg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | Dyddiad Geni: | |
| Cyfeiriad: | | ID PARIS: | |
| Enw’r ganolfan neu’r cyfle dydd: | | | |
| Enw a rôl yr Asesydd: | | | |
| Enw(au) a rôl/rolau eraill sy'n rhan o'r asesiad cludiant: | | | |
| Dyddiad cwblhau: | | | |

FEL RHAN O'R ASESIAD HWN, GOFYNNIR Y CWESTIYNAU CANLYNOL:

| | |
|---|---|
| 1. A oes yna unrhyw wasanaethau eraill sydd yn nes at gartref yr unigolyn a fyddai'n diwallu'r angen a nodwyd? | Oes / Nac oes |
| Rhowch fanylion: | |
| 2. A yw'r unigolyn yn gallu cerdded at y gwasanaeth? | Ydi / Nac ydi |
| Rhowch fanylion: | |
| 3. A yw'r unigolyn yn gallu defnyddio ei gludiant ei hun? | Ydi / Nac ydi |
| Rhowch fanylion: | |
| 4. A yw'r unigolyn yn gallu talu costau cludiant o unrhyw lwfans symudedd a ddyfarnwyd iddynt? | Ydi / Nac ydi |
| Rhowch fanylion: | |
| 5. Os nad yw'r unigolyn yn derbyn lwfans symudedd, ond y gallai fod yn gymwys i'w dderbyn, a yw'r unigolyn wedi cael cynnig cymorth i gyflwyno cais? | Ydi / Nac ydi |
| Os nad yw, pam hynny? | |
| 6. A yw'r unigolyn yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol / Lwfans Byw i'r Anabl? | Ydi / Nac ydi |
| Manylion ariannol y pecyn gofal: | |
| 7. A oes gan yr unigolyn gynorthwy-ydd teithio ar hyn o bryd, neu a oes angen un arno? | Oes / Nac oes |

| | |
|---|---|
| Os oes, at ba ddiben: | |
| | Oes / Nac oes |
| Beth yw'r amgylchiadau? | |
| | Ydi / Nac ydi |
| Rhowch fanylion: | |
| | Byddai / Na fyddai |
| Os byddai, nodwch y gefnogaeth arfaethedig: | |
| | Ydi / Nac ydi |
| Rhowch fanylion: | |
| | Oes / Nac oes |
| Os oes, rhowch fanylion: | |

| 13. A fydd unrhyw un o’r dulliau uchod yn datrys y broblem o ran sut y bydd yr unigolyn yn gallu cael | |
|---|---|
| BYDD<br>Nodwch sut y bydd yr unigolyn yn cael mynediad at wasanaethau yn yr asesiad o anghenion neu’r cynllun gofal. | NA FYDD<br>Ewch ymlaen at adran nesaf yr asesiad cludiant. |

Beth yw’r risgiau a nodwyd o ran anghenion personol, meddygol a chefnogaeth yr unigolyn o safbwynt cludiant? A yw’r rhain wedi’u nodi yn yr asesiad o anghenion neu’r cynllun gofal? Os nad ydynt, gwnewch yn siŵr bod hynny wedi’i wneud cyn mynd ymhellach.

| | Risgiau posibl | Rheolyddion sydd mewn grym i leihau effaith y risg |
|---|---|---|
| A | | |
| B | | |
| Crynodeb o’r angen am gludiant a’r risgiau a nodwyd: | | |

| Argymhellion yr Asesydd: |
|---|
| |
| Sylwadau ac argymhellion gan Aelodau'r Panel: |
| |

**AT DDEFNYDD SWYDDFA**

| Penderfyniad y Panel: | |
|---|---|
| Nodwch y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad: | |
| Llofnod Cadeirydd y Panel, rhaid i hyn fod ar lefel Rheolwr Gwasanaeth | |
| Llofnod: | |
| Enw mewn llythrennau bras: | |
| Dyddiad: | |